Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# Amseroedd Aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Awst 2012

## Cyflwyniad

Mae'r papur briffio hwn yn darparu gwybodaeth am berfformiad Byrddau Iechyd Lleol yn ôl targedau amser Llywodraeth Cymru ynghylch aros am driniaeth yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Caiff y rhan fwyaf o amseroedd aros y GIG yng Nghymru eu mesur yn ôl yr amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth (RTT), ond mae nifer o eithriadau.[1] **Y cyfnod rhwng atgyfeirio a thriniaeth yw'r amser rhwng yr atgyfeiriad gan Feddyg Teulu neu ymarferydd meddygol arall a phan fydd y claf yn cyrraedd yr ysbyty i gael triniaeth.**[2]

Yn 2011-12 nod targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn y GIG yw sicrhau:

- bod o leiaf 95 y cant o gleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn aros llai na 26 wythnos rhwng yr atgyfeirio a'r driniaeth.
- bod yn rhaid i 100 y cant o'r cleifion nad ydynt wedi cael triniaeth o fewn 26 wythnos gael triniaeth o fewn 36 wythnos.

[1] Mae'r targedau hyn yn berthnasol i'r mwyafrif o atgyfeiriadau am driniaeth yn ysbytai'r GIG; fodd bynnag, mae nifer o eithriadau. Yn ychwanegol at hyn, mae i gyflyrau fel canser eu targedau penodol eu hunain, ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y targedau cyffredinol. Mae rhagor o wybodaeth am dargedau atgyfeirio a thriniaeth ar gael yn nogfen Llywodraeth Cymru, **Amseroedd Atgyfeiriad am Driniaeth – Ebrill 2012**, (Saesneg yn unig) tudalen 1, 14 Mehefin 2012 [fel ar 10 Awsr 2012]

[2] Llywodraeth Cymru, Amseroedd Atgyfeiriad am Driniaeth – Mai 2012,(Saesneg yn unig) 12 Gorffennaf 2012 [fel ar 10 Awsr 2012]

Bydd Llywodraeth Cymru yn mesur cynnydd yn ôl y targedau hyn bob mis, a'r ffigurau a ddefnyddir **yw'r ffigurau ar gyfer cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth ar ddiwedd y mis.** Cyhoeddir ffigurau ar wahân ar gyfer cleifion sy'n cael triniaeth yn ystod pob mis,[3] ond gan nad yw'r targedau'n cynnwys y cleifion hyn nid ydynt wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn.

## Amseroedd aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth yn y GIG ym mis Mehefin 2012

Dengys tabl 1 a ffigurau 1 a 2 y perfformiad yn ôl y targedau amser o 26 wythnos a 36 wythnos i aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Lleol, ac ar gyfer Cymru gyfan, gan ddefnyddio'r ffigurau diweddaraf, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2012.[4] Mae tabl 1 a ffigur 1 yn cynnwys y wybodaeth a ganlyn:

- **Ym mis Mehefin 2012, ni chyrhaeddwyd y targed o 26 wythnos nac o 36 wythnos ar sail Cymru gyfan.**
- Cyrhaeddodd **Byrddau Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr a Phowys** y targed amser o 26 wythnos i aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth ym mis Mehefin 2012.
- Cyrhaeddodd **Byrddau Iechyd Lleol Aneurin Bevan a Phowys** y targed o 36 wythnos ym mis Mehefin 2012.
- **Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro** oedd â'r perfformiad gwaethaf o ran cyrraedd y ddau darged.

[3] Ystadegau Cymru [035295] – Amseroedd Atgyfeiriad am Driniaeth – Cleifion a gafodd driniaeth (Saesneg yn unig) [fel ar 10 Awsr 2012]

[4] Ystadegau Cymru [035296] Amseroedd Atgyfeiriad am Driniaeth – Cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl y mis diweddaraf (Saesneg yn unig) [fel ar 10 Awsr 2012]

### Tabl 1: Perfformiad yn ôl targedau amser aros ar ddiwedd mis Mehefin 2012 (a), (c)

| Bwrdd Iechyd Lleol | O dan 26 wythnos: Nifer y cleifion sy'n aros | O dan 26 wythnos: Canran yr holl gleifion sy'n aros | O dan 36 wythnos (b): Nifer y cleifion sy'n aros | O dan 36 wythnos (b): Canran yr holl gleifion sy'n aros | Cyfanswm nifer y cleifion sy'n aros am driniaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| Abertawe Bro Morgannwg | 70,318 | 94.7 | 73,937 | 99.6 | 74,233 |
| Aneurin Bevan | 86,820 | 91.6 | 94,772 | 100.0 | 94,772 |
| Betsi Cadwaladr | 72,819 | 95.0 | 76,603 | 99.9 | 76,644 |
| Caerdydd a'r Fro | 66,749 | 90.1 | 72,142 | 97.4 | 74,098 |
| Cwm Taf | 30,777 | 93.7 | 32,406 | 98.6 | 32,857 |
| Hywel Dda | 43,029 | 93.5 | 45,967 | 99.9 | 46,026 |
| Powys | 5,383 | 98.9 | 5,445 | 100.0 | 5,445 |
| **Cymru** | **375,895** | **93.0** | **401,272** | **99.3** | **404,075** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil a seiliwyd ar Ystadegau Cymru [035296] (Saesneg yn unig)


Nodiadau:

(a) Mae hyn yn cynnwys cleifion sy'n aros am driniaeth ar gyfer y galon. Caiff yr amser aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer y galon ei ddiffinio'n wahanol i'r amser aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn gyffredinol; gweler **Adroddiad ansawdd Llywodraeth Cymru** (Saesneg yn unig) i gael rhagor o fanylion.


(b) Mae'r ffigurau ar gyfer cleifion sy'n aros hyd at 36 wythnos am driniaeth yn cynnwys y cleifion hynny sy'n aros hyd at 26 wythnos a rhwng 26 a 36 wythnos am driniaeth.

(c) Cyrhaeddodd y gwerthoedd yn y blychau porffor y targedau amser aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth ym mis Mehefin 2012.

### Ffigur 1: Canran y cleifion a oedd wedi aros llai na 26 wythnos am eu triniaeth ar ddiwedd mis Mehefin 2012




### Ffigur 2: Canran y cleifion a oedd wedi aros llai na 36 wythnos am eu triniaeth ar ddiwedd mis Mehefin 2012




## Perfformiad yn ôl y targedau amser aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth ers mis Mehefin 2011

Mae Tabl 2 a ffigur 3 yn canolbwyntio ar y perfformiad, ers mis Mehefin 2011, yn ôl y targedau amser aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth, ar sail Cymru gyfan.[5]

Mae modd gweld yn nhabl 2 a ffigur 3:

- **Nad yw'r naill darged na'r llall wedi'u cyrraedd yn ystod unrhyw fis** ar lefel Cymru gyfan rhwng mis Mehefin 2011 a mis Mehefin 2012.
- Bu i ganran y cleifion a fu'n aros llai na 26 a 36 wythnos ostwng dros y pedwar mis diwethaf. Fodd bynnag, mae'r canran yn dal i fod yn uwch, neu yr un fath ag yr oedd ym mhob mis rhwng mis Mehefin 2011 a mis Ionawr 2012

[5] Ystadegau Cymru [035296] Amseroedd rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth – Y cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl y mis diweddaraf, [010964] Amseroedd rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth ar gyfer y Galon – Cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth ac [010965] amseroedd rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth – Cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth (y cyfan yn Saesneg yn unig) [y cyfan fel ar 10 Awsr 2012]

**Tabl 2: Perfformiad yn ôl y targedau amser aros, ar sail Cymru gyfan, rhwng mis Mehefin 2011 a mis Mehefin 2012 (a)**

| Dyddiad | O dan 26 wythnos: Nifer y cleifion sy'n aros | O dan 26 wythnos: Canran yr holl gleifion sy'n aros | O dan 36 wythnos (b): Nifer y cleifion sy'n aros | O dan 36 wythnos (b): Canran yr holl gleifion sy'n aros | Cyfanswm nifer y cleifion sy'n aros am driniaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| Mehefin 2011 | 360,552 | 93.0 | 380,776 | 98.2 | 387,646 |
| Gorffennaf 2011 | 365,413 | 93.2 | 385,202 | 98.2 | 392,271 |
| Awst 2011 | 363,827 | 92.2 | 386,964 | 98.1 | 394,570 |
| Medi 2011 | 359,166 | 91.5 | 385,033 | 98.1 | 392,467 |
| Hydref 2011 | 358,615 | 92.0 | 382,328 | 98.1 | 389,797 |
| Tachwedd 2011 | 356,019 | 92.0 | 379,348 | 98.0 | 386,977 |
| Rhagfyr 2011 | 350,998 | 91.4 | 376,192 | 98.0 | 383,891 |
| Ionawr 2012 | 346,716 | 92.3 | 369,176 | 98.3 | 375,719 |
| Chwefror 2012 | 350,831 | 93.1 | 371,823 | 98.7 | 376,686 |
| Mawrth 2012 | 366,989 | 94.0 | 388,614 | 99.6 | 390,228 |
| Ebrill 2012 | 371,479 | 93.6 | 394,690 | 99.5 | 396,793 |
| Mai 2012 | 371,996 | 93.4 | 396,192 | 99.4 | 398,469 |
| Mehefin 2012 | 375,895 | 93.0 | 401,272 | 99.3 | 404,075 |


Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil a seiliwyd ar Ystadegau Cymru [016964], [016965] a [035294]

Nodiadau:

(a) Mae hyn yn cynnwys cleifion sy'n aros am driniaeth ar gyfer y galon. Caiff yr amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer y galon ei ddiffinio'n wahanol i'r amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn gyffredinol; gweler **Adroddiad ansawdd Llywodraeth Cymru** (Saesneg yn unig) i gael rhagor o fanylion.

(b) Mae'r ffigurau ar gyfer cleifion sy'n aros hyd at 36 wythnos am driniaeth yn cynnwys y cleifion sy'n aros hyd at 26 wythnos ac sy'n aros rhwng 26 a 36 wythnos am driniaeth.

**Ffigur 3: Canran y cleifion a oedd wedi aros llai na 26 wythnos a 36 wythnos ar ddiwedd y mis rhwng mis Mehefin 2011 a mis Mehefin 2012**




Ffynhonnell: **Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil, a seiliwyd ar Ystadegau Cymru [016964], [016965] a [035296]**

Nodiadau – Gweler y nodiadau ar gyfer Tabl 2.

## Arbenigedd trawma ac orthopedeg

Er bod **targedau amseroedd aros yn cael eu defnyddio i fesur perfformiad ar draws pob arbenigedd**, mae'n ddefnyddiol gweld cyfraniad arbenigeddau unigol tuag at y perfformiad.

Mewn datganiad ysgrifenedig ym mis Mawrth 2011, nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd pa mor anodd yr oedd i gyrraedd y targedau amser aros, a hynny yn sgil y pwysau yn y gwasanaethau orthopedeg o ganlyniad i ragor o atgyfeirio gan feddygon teulu.[6]

Dyrannodd Llywodraeth Cymru £15 miliwn yn ychwanegol yn 2012-13 ac £16 miliwn yn ychwanegol yn 2013-14 i wella'r gallu i ymdrin â'r cynnydd yn y galw am driniaeth orthopedig.[7]

Dengys Tabl 3 y ffigurau diweddaraf ar gyfer yr arbenigedd trawma ac orthopedeg, ar ddiwedd mis Mehefin 2012.[8]

**Tabl 3: Amseroedd aros ar gyfer yr arbenigedd trawma ac orthopedeg ar ddiwedd mis Mehefin 2012, (a), (b)**

| Bwrdd Iechyd Lleol | O dan 26 wythnos: Nier y cleifion sy'n aros | O dan 26 wythnos: Canran y cleifion sy'n aros | O dan 36 wythnos (a): Nifer y cleifion sy'n aros | O dan 36 wythnos (a): Canran yr holl gleifion sy'n aros | Cyfanswm nifer y cleifion sy'n aros am driniaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| Abertawe Bro Morgannwg | 9,449 | 90.0 | 10,499 | 100.0 | 10,500 |
| Aneurin Bevan (c) | 11,517 | 89.3 | 12,899 | 100.0 | 12,899 |
| Betsi Cadwaladr | 7,803 | 90.4 | 8,610 | 99.8 | 8,628 |
| Caerdydd a'r Fro | 8,895 | 85.6 | 9,988 | 96.2 | 10,386 |
| Cwm Taf | 3,620 | 88.7 | 3,994 | 97.8 | 4,083 |
| Hywel Dda | 6,551 | 87.9 | 7,415 | 99.5 | 7,456 |
| Powys | 407 | 97.8 | 416 | 100.0 | 416 |
| **Cymru** | **48,242** | **88.7** | **53,821** | **99.0** | **54,368** |

**Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil a seiliwyd ar Ystadegau Cymru [035296]**

Nodiadau:

(a) Mae'r ffigurau ar gyfer cleifion sy'n aros hyd at 36 wythnos am driniaeth yn cynnwys y cleifion sy'n aros hyd at 26 wythnos a rhwng 26 a 36 wythnos am driniaeth.

(b) Dengys y gwerthoedd yn y blychau porffor lefel perfformiad sy'n cyfateb i'r lefel angenrheidiol i gyrraedd y targedau amser aros cyffredinol ym mis Ebrill 2012 neu'n uwch na hynny.

[6] Llywodraeth Cymru, Edwina Hart (y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), **Y diweddaraf ar Amseroedd Aros a Gwasanaethau Orthopedig,** Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 10 Mawrth 2011 [fel ar 10 Awsr 2012]


[7] Llywodraeth Cymru, **Cyllideb Ddrafft 2012-13: Cyllideb Twf a Swyddi**, tudalen 24, Hydref 2011 [fel ar 10 Awsr 2012]

[8] Ystadegau Cymru [035296] Amseroedd rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth: Cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl y mis diweddaraf [fel ar 10 Awsr 2012]

- Ym **Mwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys** roedd dros 95 y cant o gleifion yn aros llai na 26 wythnos.
- **Ym Myrddau Iechyd Lleol Aneurin Bevan a Phowys,** roedd pob claf wedi aros llai na 36 wythnos am driniaeth. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, roedd pob un ac eithrio un claf wedi bod yn aros llai na 36 wythnos am driniaeth.
- Y Bwrdd Iechyd Lleol a oedd â'r ganran isaf o gleifion yn aros o dan 26 a 36 wythnos oedd **Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro.**

Gwelir cymhariaeth yn Ffigur 4 rhwng canran y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos a 36 wythnos am driniaeth yn yr arbenigedd trawma ac orthopedeg yn ystod y misoedd rhwng mis Mehefin 2011 a mis Mehefin 2012.

**Ffigur 4: Canran y cleifion a oedd wedi aros llai na 26 wythnos a 36 wythnos am driniaeth yn yr arbenigedd trawma ac orthopedeg, rhwng mis Mehefin 2011 a mis Mehefin 2012**




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil a seiliwyd ar Ystadegau Cymru [016965] a [035296]

- Ar gyfer pob mis ers mis Mehefin 2011, bu canran y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos am driniaeth yn **llawer is na'r lefel angenrheidiol i gyrraedd y targed ar draws pob arbenigedd,** er bod y ffigurau ym mis Mehefin 2012 yn uwch na'r rheini ym mhob mis arall ers mis Mehefin 2011.
- Ar gyfer pob mis ers mis Mehefin 2011, bu canran y cleifion sy'n aros llai na 36 wythnos hefyd **yn is na'r lefel sy'n angenrheidiol i gyrraedd y targed amser aros ar draws pob arbenigedd.**

## Rhagor o wybodaeth

Mae'r lincs isod yn darparu rhagor o wybodaeth am y ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn y papur hwn, a rhagor o wybodaeth am Amseroedd Aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth yn y GIG:

- Llywodraeth Cymru, **Amseroedd Atgyfeiriad am Driniaeth – Mehefin 2012**

  Ystadegau Cymru, [016964] Amseroedd Atgyfeiriad am Driniaeth ar gyfer y Galon – Cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth (Saesneg yn unig) (mis Hydref 2009 tan fis Awst 2011)
- Ystadegau Cymru, [016965] Amseroedd Atgyfeiriad am Driniaeth – Cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth (Saesneg yn unig) (mis Hydref 2009 tan fis Awst 2011)
- Ystadegau Cymru, [035294] Amseroedd Atgyfeiriad am Driniaeth – Cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth (Saesneg yn unig)
- Ystadegau Cymru, [035296] Amseroedd Atgyfeiriad am Driniaeth – Cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl y mis diweddaraf (Saesneg yn unig)

Mae ystadegau ar gleifion sydd wedi cael triniaeth yn ystod pob mis ar gael yn:

- Ystadegau Cymru, [035295] Amseroedd Atgyfeiriad am Driniaeth – Cleifion a gafodd driniaeth (Saesneg yn unig).

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth ac ystadegau am Amseroedd aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth yn y GIG, cysylltwch â Gareth Thomas (**GarethDavid.Thomas@cymru.gov.uk**), yn y Gwasanaeth Ymchwil.

Gellir gweld **ein hystod lawn o gyhoeddiadau** ar **wefan y Cynulliad:** **assemblywales.org/research**.

Gallwch hefyd ein dilyn ni ar Twitter: **@YmchwilCCC**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at **Research.Service@wales.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Nodyn Ymchwil hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd

**Ymholiad rhif: 12/2197**